Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad Strwythuredig 2021 (Cam Un) – Trefniadau Cynllunio Gweithredol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Blwyddyn archwilio: 2021

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2386A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Cwmpas a chynnwys Cynllun Chwarteri Tri a Phedwar 2020-21 7

Trefniadau ar gyfer datblygu cynllun blynyddol 2021-22 a chyfleoedd ar gyfer datblygu strategaeth yn y dyfodol 9

Trefniadau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol 10

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau cam cyntaf Asesiad Strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2021 ar y trefniadau cynllunio gweithredol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae ein Hasesiad Strwythuredig wedi'i fwriadu i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod wedi'i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014.

2 Mae'n ofynnol i gyrff iechyd gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) tair blynedd i Lywodraeth Cymru yn flynyddol. Ym mis Ionawr 2020, cyflwynodd cyrff iechyd Gynlluniau Tymor Canolig Integredig, a oedd yn cwmpasu'r cyfnod 2020-2023, i gael eu cymeradwyo. Fodd bynnag, fe ataliodd Llywodraeth Cymru'r broses ar gyfer cymeradwyo Cynlluniau Tymor Canolig Integredig i alluogi cyrff iechyd i ganolbwyntio ar ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a achoswyd gan bandemig COVID-19.

3 Fe nododd y Gweinidog Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chwaraeon gylchoedd cynllunio byrrach i gyrff iechyd ar gyfer 2020-21. Roedd canllawiau'n nodi ystyriaethau allweddol ar gyfer cynllunio, gyda'r gofyniad i gyrff iechyd baratoi cynllun chwarter un erbyn 18 Mai 2020, cynllun chwarter dau erbyn 3 Gorffennaf 2020, a chynllun cyfunol ar gyfer chwarteri tri a phedwar erbyn 19 Hydref 2020.

4 Mae'r fframwaith cynllunio ar gyfer chwarteri tri a phedwar 2020-21 yn cynnwys cynnal trefniadau cynllunio gweithredol effeithiol ac effeithlon mewn cyrff iechyd i roi arweiniad o ran eu hymateb parhaus i'r pandemig yn ogystal ag ymateb i bwysau'r gaeaf a goblygiadau pontio o'r UE. Mae angen i gyrff iechyd barhau i osod y sylfeini ar gyfer adferiad effeithiol y tu hwnt i 2020-21 hefyd.

5 Yn yr adroddiad ar ein Hasesiad Strwythuredig yn 2020 fe wnaethom ystyried trefniadau cynllunio'r Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu cynlluniau chwarteri un a dau. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y trefniadau cynllunio sy'n tanategu datblygiad y cynllun gweithredol ar gyfer chwarteri tri a phedwar yn 2020-21 a chynllun blynyddol 2021-22.

# Negeseuon allweddol

7 Ar y cyfan, **canfuom fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cynllunio byrdymor oedd yn gwella a'i fod yn diweddaru ei strategaeth i helpu i lywio gwelliant, adferiad gwasanaethau a chynaliadwyedd**.

8 Fe wnaeth cynllun y Bwrdd Iechyd ar gyfer Chwarteri 3-4 ateb gofynion canllawiau Llywodraeth Cymru yn fras. Roedd y cynllun yn canolbwyntio ar y pedwar niwed sy'n deillio o COVID ac yn cynnwys modelu a chynllunio ar gyfer senarios i helpu i oleuo capasiti'r Bwrdd Iechyd i ymateb i unrhyw ymchwydd mewn COVID-19 dros y gaeaf. Roedd Cynllun Chwarteri 3-4 yn darparu cyswllt da rhwng cynlluniau blaenorol, gan gario drosodd gamau gweithredu a phrosiectau na oeddent wedi'u cwblhau'n llawn, a heriau tymor hwy megis ailgychwyn ac adfer gwasanaethau. Dangosodd y Bwrdd Iechyd hefyd ei fod wedi dysgu o ddulliau cynllunio byrdymor blaenorol, ac fe wnaeth baratoi'r cynllun, ymgysylltu yn ei gylch a'i gymeradwyo mewn ffordd fwy amserol.

9 Nododd y Bwrdd Iechyd ddull rhesymegol ar gyfer datblygu ei Gynllun Blynyddol 2021-22. Eu huchelgais oedd cyfuno bwriad strategol (o'r brig i lawr) a chynllunio gwasanaethau (o'r gwaelod i fyny). Roedd hwn yn ddull dymunol ond, o edrych yn ôl, yn gryn her, gan bod pwysau'r pandemig ar ddarparu gwasanaethau'n cyfyngu ar gapasiti rheolwyr gwasanaethau allweddol i ymgysylltu â'r broses gynllunio. Mae heriau sylweddol o'i flaen, ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau adferiad gwasanaethau yn y dyfodol a chynaliadwyedd gwasanaethau yn y tymor hwy. Mae cynlluniau cyfredol yn nodi'r camau y mae eu hangen i gynyddu capasiti gwasanaethau gyda'r nod o adfer perfformiad. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn bwriadu adnewyddu/diweddaru'r strategaeth bresennol. Ceir risgiau a chyfleoedd o hyd gan gynnwys ennyn ymgysylltiad y cyhoedd, staff a'r boblogaeth fel rhan o gynllunio, gan feithrin digon o gapasiti ar gyfer rhaglenni a chynllunio. Mae ar alluogwyr fel y gweithlu, digidol ac ystadau angen digon o adnoddau hefyd sy'n gyson â chyflawni amcanion strategol.

10 Ceir trefniadau i graffu ar y modd y cyflawnir cynlluniau a chael sicrwydd ynghylch hynny ar lefel y Bwrdd yn ogystal ag adrodd yn rheolaidd ar gynnydd wrth y Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Mae angen o hyd i ddisgrifio'n well beth yw effaith cyflawni rhaglenni a mentrau a nodir yn y cynlluniau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud gwaith i wella'r modd y mae'n adrodd ar y cynnydd o ran cyflawni ei gynlluniau. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i'r Bwrdd ddeall yn llawn a yw buddsoddiadau a mentrau'n arwain at y gwelliant a ddymunir

# Argymhellion

11 Mae argymhellion o’r adroddiad ar yr asesiad strwythuredig blaenorol yn dal i fod ar y gweill. Mewn nifer o feysydd cafodd y camau gweithredu eu hatal dros dro oherwydd y pandemig. O ganlyniad nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion ychwanegol o ganlyniad i’r archwiliad hwn. Byddwn yn gwneud 2il gan yr asesiad strwythuredig yn ddiweddarach eleni a bydd hyn yn cynnwys gwaith dilynol ar yr holl argymhellion mewn asesiadau strwythuredig sy’n dal heb eu rhoi ar waith.

# Adroddiad manwl

## Cwmpas a chynnwys Cynllun Chwarteri Tri a Phedwar 2020-21

12 Fe roddodd ein gwaith ystyriaeth i gwmpas a chynnwys Cynllun Chwarteri Tri a Phedwar (Cynllun Chwarteri 3-4) 2020-21 y Bwrdd Iechyd yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru. Canfuom fod **cynllun y Bwrdd Iechyd ar gyfer Chwarteri 3-4 yn ateb gofynion canllawiau Llywodraeth Cymru yn fras a'i fod yn seiliedig ar y pedwar niwed sy'n deillio o COVID, risg, a mentrau gwella parhaus.**

13 Fe wnaeth graddfa a natur y pandemig newid y dirwedd gynllunio ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn sylweddol yn 2020-21. Yn yr adroddiad ar ein Hasesiad Strwythuredig yn 2020 fe wnaethom amlygu rhai o'r heriau yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi'u profi wrth ddatblygu cynlluniau gweithredol, megis y graddfeydd amser byr rhwng eu paratoi a chael cymeradwyaeth gan y Bwrdd. Dysgodd y Bwrdd Iechyd o waith cynllunio chwarterol cynharach ac fe wnaeth wella amseroldeb craffu ar gynllun Chwarteri 3-4 ar lefel y Bwrdd, cyn ei gymeradwyo. Fe wnaeth y Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth graffu ar gynllun Chwarteri 3-4 ar 1 Hydref 2020. Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd gynllun Chwarteri 3-4 a 'Set Ddata Sylfaenol' wedi'i chwblhau'n llawn i Lywodraeth Cymru erbyn y terfyn amser gofynnol, sef 19 Hydref 2020. Cafwyd cymeradwyaeth ffurfiol gan y Bwrdd ar 12 Tachwedd 2020. Fel cyrff iechyd eraill, ni chafodd y Bwrdd adborth ffurfiol gan Lywodraeth Cymru.

14 Fe wnaeth cynllun Chwarteri 3-4 gwrdd â'r cwmpas a oedd yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn fras ac roedd y cynllun yn alinio'n dda â chynllun tymhorol y gaeaf a gynhyrchwyd yr un pryd. Yn gyffredinol, ceir cwmpas da ar y cyfan yng nghynllun Chwarteri 3-4 sy'n ddatblygiad ar y ddau gynllun chwarterol cyntaf ac yn darparu rhai agweddau ar gyfeiriad y Bwrdd Iechyd yn y dyfodol/tymor hwy. Gan hynny, ceir cydbwysedd rhesymol rhwng pwysau byrdymor a newidiadau ehangach i wasanaethau. Fodd bynnag, fe wnaethom nodi mai sylw cyfyngedig iawn a roddir i faterion ariannol yng nghynllun Chwarteri 3-4 ei hun. Oherwydd hyn, nid yw'n glir a oedd agweddau allweddol ar y cynllun yn fforddiadwy ynteu a fyddai dewisiadau eraill wedi cynnig gwerth gwell.

15 Ceir gwybodaeth sy'n gwella i ategu'r broses o ddatblygu cynlluniau. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd waith rhagweld a chynllunio ar gyfer senarios yn seiliedig ar fodelau dadansoddi data Prifysgol Abertawe ar gyfer ymchwydd yn y galw. Fe arweiniodd hyn at fodelau senarios a oedd yn cysylltu â hyd a lled haint COVID-19 dros y gaeaf. Mae gwybodaeth am gapasiti a'r galw wedi helpu i lunio mentrau megis y cynigion ar gyfer canolfan ddiagnostig a thriniaeth hefyd (gweler **paragraff 17**).

16 Roedd cynllun Chwarteri 3-4 yn cynnwys dadansoddiad o'r capasiti craidd ac ymchwydd a oedd ar gael yn ei safleoedd arferol ac ysbytai enfys dros dro, gyda hynny'n cael ei ategu trwy gwblhau set ddata 'Atodiad D' Llywodraeth Cymru. Roedd y dadansoddiad yn dynodi'r potensial i gynyddu capasiti ymchwydd a'r raddfa amser a oedd yn ofynnol i'w gyflwyno. Fe ganolbwyntiodd y Bwrdd Iechyd ar fodelu'r gweithlu yn y tymor byr pe bai angen capasiti ychwanegol yn y gaeaf

neu pe effeithid ar adnoddau gan yr haint/diffyg argaeledd dros gyfnod y gaeaf. Roedd y cynllun yn cydnabod effaith fawr COVID-19 ar y gweithlu, a'r angen i barhau i ganolbwyntio ar iechyd meddwl, straen drawmatig, a lles staff.

17 Roedd cynllun Chwarteri 3-4 yn nodi cyd-destun y pedwar niwed sy'n deillio o COVID-19. Roedd hyn o gymorth i sicrhau ffocws cytbwys rhwng gofal uniongyrchol COVID-19, yr angen i gynnal gwasanaethau hanfodol a blaenoriaethu cleifion â'r anghenion mwyaf taer. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- dull haenu risgiau ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan a gymhwysir i gleifion sy'n disgwyl i gael mynediad at wasanaethau i gleifion allanol neu achosion cleifion mewnol/dydd i sicrhau bod y cleifion â'r flaenoriaeth uchaf yn cael cynnig apwyntiadau ar y cyfle cynharaf;
- darparu 'gwasanaethau hanfodol' mewn modd a ategir gan waith i ailddylunio ac ailfodelu gwasanaethau ac, mewn rhai meysydd, buddsoddiad ychwanegol;
- cydnabod yr ôl-groniad cynyddol o oediadau ac, o ganlyniad, datblygu model canolfan ddiagnostig a thriniaeth i helpu i ddarparu'r capasiti angenrheidiol i adfer gwasanaethau yn y tymor canolig; a
- sicrhau mynediad parhaus at wasanaethau gofal sylfaenol, a chyfleu'r rhain, opsiynau ar gyfer hunanofal a hyrwyddo'r rhaglen i frechu rhag COVID-19.

18 Mae cynllun Chwarteri 3-4 yn nodi deilliannau tymor hwy; fodd bynnag, mewn nifer o achosion nid yw'r mesurau a ddiffinnir yn ddangosyddion da i ddynodi pa un a fydd deilliant yn cael ei gyflawni. Mae hyn yn arbennig o nodedig ym maes gofal wedi'i gynllunio. Mae camau gweithredu'n benodol, mae perchnogion ar lefel uwch wedi'u diffinio ar eu cyfer, ac maent yn amserol, ond mewn nifer o achosion caiff 'allbynnau' eu disgrifio mewn ffordd a fydd yn ei gwneud yn anodd asesu'r effaith a gyflawnir. Rydym hefyd yn nodi y gellid cryfhau'r asesiad o risgiau i gyflawni camau gweithredu. Byddai hyn yn helpu'r Bwrdd i ddeall nid dim ond maint yr uchelgais, ond hefyd ble y gall risgiau sydd o fewn neu'r tu hwnt i reolaeth y Bwrdd Iechyd fod yn rhwystr i gyflawni'r cynllun.

19 Er bod pwyntiau ar gyfer gwella, roedd y cynllun yn darparu mecanwaith i ganolbwyntio gweithgarwch gwella ar draws y Bwrdd Iechyd, ac mae'n ddigon cynhwysfawr ar gyfer cynllun byrdymor. Mae ei gynnwys yn gyson fwy neu lai â'n dealltwriaeth ni am y risgiau a'r heriau allweddol a oedd yn wynebu'r Bwrdd Iechyd ar yr adeg honno.

20 Dynododd swyddogion y Bwrdd Iechyd fod y broses cynllunio chwarterol wedi bod yn ddefnyddiol ac fe wnaethant sylw am y gallu i gymharu a chyferbynnu â byrddau iechyd eraill yn ystod 2020-21. Fe ddwedon nhw wrthym hefyd, er bod cynlluniau byrdymor yn helpu o ran gallu ymateb ac addasu i'r pandemig, fod risg nad yw cylchoedd cynllunio byr iawn yn creu'r lle angenrheidiol i greu newid a gwelliant ystyrlon. Mae hwn yn faes y mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddod o hyd i'w ffordd ynddo wrth iddo daro cydbwysedd rhwng ymateb i'r pandemig yn y tymor byr, ailgychwyn gwasanaethau craidd ac adfer gwasanaethau dros sawl blwyddyn

## Trefniadau ar gyfer datblygu cynllun blynyddol 2021-22 a chyfleoedd ar gyfer datblygu strategaeth yn y dyfodol

21 Fe wnaeth ein gwaith ystyried trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu Cynllun Blynyddol 2021-22 a chapasiti ehangach ar gyfer strategaeth a rhaglenni. Canfuom fod **trefniadau rhesymol ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol ond bod heriau sylweddol o'i flaen a fydd yn galw am strategaeth a chynlluniau uchelgeisiol yn y tymor canolig a hir**.

22 Mae gan y Bwrdd Iechyd ffrwd waith cynllunio a grŵp cynllunio. Mae'r ffrwd waith cynllunio'n cynnwys uwch reolwyr ac arweinwyr ar ran gwasanaethau. Mae'r grŵp cynllunio'n cynnwys cynrychiolwyr o feysydd gwybodeg, y gweithlu, cyllid a chynllunio. Wrth ddatblygu Cynllun Blynyddol 2021-22 (y Cynllun Blynyddol), fe wnaeth ffrwd waith cynllunio'r Bwrdd Iechyd ystyried effaith COVID-19 yn ystod yr hydref ac fe fabwysiadodd ddull cynllunio blynyddol cychwynnol a oedd yn seiliedig ar egwyddor ymgysylltu mewnol cyfunol. Yr uchelgais oedd cyfuno bwriad strategol (o'r brig i lawr) a chynllunio gwasanaethau (o'r gwaelod i fyny). Roedd hwn yn ddull dymunol ond, o edrych yn ôl, yn gryn her. Bwriad gwreiddiol y Bwrdd Iechyd oedd paratoi Cynllun Blynyddol a gymeradwywyd gan y Bwrdd erbyn mis Ionawr 2021. Fodd bynnag, cafodd twf COVID-19 ym mis Rhagfyr a mis Ionawr effaith sylweddol ar gapasiti rheolwyr isadrannau/gwasanaethau i gyfrannu at ddatblygu'r Cynllun Blynyddol. Cyfrannodd hyn yn rhannol at yr oedi gyda'r amserlen gynllunio.

23 Ni sylwom ar ryw lawer o dystiolaeth o ymgysylltu â phartneriaid allanol fel rhan o ddatblygu'r cynllun, ond o fewn y cynllun, mae gofynion clir ar gyfer ymgysylltu allanol dros y 12 mis nesaf. Mae ffyrdd newydd o weithio wedi'u hymgorffori yn y Cynllun Blynyddol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn y broses o ddatblygu a chytuno ar strategaeth ddigidol ac mae hon wedi cael ei llunio gan ymgysylltiad â staff, y cyhoedd a phartneriaid. Mae'r ymgysylltiad ynghylch y strategaeth ddigidol wedi helpu'r Bwrdd Iechyd i adnabod y cyfle i barhau i ddatblygu gwasanaethau clinigol a alluogir yn ddigidol, a'r angen i atal allgau digidol ar gyfer y rhai nad oes ganddynt fynediad at dechnoleg newydd neu sy'n ei chael yn anodd i'w defnyddio. Mae wedi arwain at ddull o ran y strategaeth ddigidol sy'n seiliedig ar ddewis cleifion.

24 Cafodd y Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth ac aelodau ehangach y bwrdd y cyfle i drafod a gwneud sylwadau ar y Cynllun Blynyddol a oedd wrthi'n datblygu ym mis Chwefror 2021 a chafodd ei gyflwyno'n ddiweddarach i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ym mis Mawrth hefyd. Fe dderbyniodd y Bwrdd y Cynllun Blynyddol drafft ar gyfer 2021-22 yn ffurfiol yn ei sesiwn breifat ar 30 Mawrth 2021 ac fe'i cymeradwyodd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

25 Mae strategaeth a chynllunio'n feysydd craidd yn fframwaith uwchgyfeirio ymyriad wedi'i dargedu Llywodraeth Cymru[1]. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu diweddaru'r strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach yn ystod 2021. Mae adnewyddu'r strategaeth yn cynnig y cyfle i gael ffocws cytbwys ar draws gofal acíwt, cymunedol a sylfaenol yn ogystal â diwallu anghenion comisiynu ar lefel y boblogaeth ehangach. Y risgiau a'r meysydd gwella allweddol i'r Bwrdd Iechyd yw:

- her barhaus ymateb i'r pandemig, yr angen sylweddol i adfer a datblygu gwasanaethau cynaliadwy a chyfraniad ehangach, mewn partneriaeth, at iechyd a lles y boblogaeth.
- yr angen am amcanion eglur, sy'n cysylltu'n briodol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn nodi uchelgeisiau a nodau cyraeddadwy.
- cynlluniau sefydliadol sy'n alinio'n glir â'r strategaeth ar y cyfan, gan gyfrannu at gyflawni ei hamcanion. Mae ymgysylltu clinigol (ac ehangach) yn dal i fod yn un ar gyfer cynigion i newid gwasanaethau.
- yr angen am strwythur a methodoleg rheoli rhaglenni sy'n gadarn ac a ategir gan gapasiti ac adnoddau digonol.
- digon o gapasiti ac arbenigedd cynllunio mewnol. Gallai'r rheolwyr interim sy'n dal i gael eu colli/i fynd a dod effeithio ar barhad rhaglenni tymor hwy.
- mae angen darparu digon o adnoddau ar gyfer y gweithlu, digidol ac ystadau i alluogi gweithgarwch effeithiol i wella a moderneiddio gwasanaethau.

26 Yn yr adroddiad ar ein hasesiad strwythuredig yn 2020, fe wnaethom amlygu meysydd lle'r oedd y Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn dda i'r pandemig, gan sefydlu strwythurau rhaglenni ac alinio meysydd atebolrwydd â ffrydiau gwaith craidd. Roedd yr ymdrech i gyd yn seiliedig ar angen taer i ymateb i effaith COVID-19. Gall y Bwrdd Iechyd dynnu ar y profiad hwn a'r galluoedd a ddangosodd wrth iddo fynd i'r afael â'r heriau sydd o'i flaen, yn enwedig mewn perthynas ag adferiad gwasanaethau iechyd.

## Trefniadau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol

27 Fe wnaeth ein gwaith ystyried trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol ac yr adroddir ar hynny. **Canfuom fod trefniadau priodol ar gyfer craffu ar y modd y cyflenwir cynlluniau a chael sicrwydd ynghylch hynny ac mae adroddiadau i bwyllgorau'n cael eu mireinio i roi cymorth gwell i ddeall y manteision busnes.**

[1] Fframwaith ymyriad a dargedir Llywodraeth Cymru ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

28 Mae trefniadau yn eu lle ar gyfer craffu gan y Bwrdd ar gyflawni cynlluniau gweithredu a chael sicrwydd ynghylch hynny yn y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth. Fe wnaeth y broses o adrodd ar gynnydd o ran cyflawni cynllun Chwarteri 3-4 barhau ym mhob cyfarfod pwyllgor trwy gydol y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Mawrth 2021. Fe helpodd y gweithgarwch craffu hwn i sicrhau bod agweddau ar gynllun Chwarter 2 a oedd heb eu cyflawni'n dal i gael eu monitro, lle'r oedd yn ofynnol. Mae swyddogion wedi dynodi, oherwydd brigau COVID-19 dros y gaeaf, nad oedd rhai agweddau ar Gynllun Chwarteri 3-4 yn mynd rhagddynt fel a ddisgwylid yn wreiddiol, ond y bydd y broses o gyflawni'r agweddau hyn yn parhau i gael ei monitro yn 2021-22. Rydym yn nodi bod craffu da yn aml gan aelodau annibynnol sy'n gofyn am ragor o wybodaeth am effaith, rhesymau dros beidio â chyflawni, camau adfer a'r raddfa amser sy'n ofynnol i gwblhau'r camau gweithredu hyn.

29 Yn yr adroddiad ar ein Hasesiad Strwythuredig yn 2020 fe wnaethom nodi bod y dull ar gyfer monitro cynlluniau'n gwella, ond fe wnaethom nodi angen i wella'r ffocws ar ddeilliannau. Roedd Argymhelliad 3 yn yr adroddiad hwnnw'n nodi gofyniad i 'Sicrhau bod effeithiau a deilliannau a gyflawnir o ganlyniad i gymryd camau gweithredu'n cael eu disgrifio'n briodol yn adroddiadau monitro cynlluniau chwarterol a'r cynllun blynyddol. Gall hyn olygu bod angen cryfhau prosesau tanategol ar gyfer dadansoddi manteision busnes.'

30 Er y bu gwelliant bach ers rhifynnau blaenorol o adroddiadau monitro, mae ein hadolygiad o adroddiadau monitro mwy diweddar wedi canfod, yn erbyn rhai camau gweithredu, ei bod yn dal yn anodd gweld i ba raddau y maent yn cael eu cyflawni, ac a gyflawnwyd y deilliant/yr effaith a fwriadwyd. Rydym yn deall bod y Bwrdd Iechyd yn bwriadu cryfhau'r adroddiadau monitro cynlluniau yng ngwanwyn 2021.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.